## ATODLEN 15

## RHYDDHAD AR GYFER TRAFODIADAU PENODOL SY'N YMWNEUD Â THAI CYMDEITHASOL

### RHAN 6

### RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL GAN LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG

*Rhyddhad ar gyfer caffaeliadau penodol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig*

19 (1) Mae trafodiad tir y mae'r prynwr oddi tano yn landlord cymdeithasol cofrestredig wedi ei ryddhau rhag treth—

(a) os caiff y landlord cymdeithasol cofrestredig ei reoli gan ei denantiaid,

(b) os yw'r gwerthwr yn gorff cymwys, neu

(c) os defnyddir cymhorthdal cyhoeddus i ariannu'r trafodiad.

(2) Mae'r cyfeiriad yn is-baragraff (1)(a) at landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cael "ei reoli gan ei denantiaid" yn gyfeiriad at landlord cymdeithasol cofrestredig y mae mwyafrif aelodau ei fwrdd yn denantiaid sy'n meddiannu eiddo y mae'r darparwr tai cymwys yn berchen arnynt neu'n eu rheoli.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "aelod o'r bwrdd" ("*board member*"), mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig—

(a) os yw'n gwmni, yw un o gyfarwyddwyr y cwmni,

(b) os yw'n gorff corfforaethol y mae ei aelodau yn rheoli ei faterion, yw aelod,

(c) os yw'n gorff o ymddiriedolwyr, yw ymddiriedolwr, neu

(d) os nad yw o fewn paragraffau (a) i (c), yw aelod o'r pwyllgor rheoli neu o gorff arall sy'n gyfrifol am gyfarwyddo materion y landlord cymdeithasol cofrestredig;

ystyr "corff cymwys" ("*qualifying body*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) landlord cymdeithasol cofrestredig;

(b) ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50);

(c) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a gyfansoddwyd o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70);

(d) cyngor sir neu gyngor dosbarth a gyfansoddwyd o dan adran 2 o'r Ddeddf honno;

(e) Gweinidogion Cymru;

ystyr "cymhorthdal cyhoeddus" ("*public subsidy*") yw unrhyw grant neu gymorth ariannol arall—

(a) a wneir neu a roddir ar ffurf dosbarthiad yn unol ag adran 25 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (p. 39) (cymhwyso arian gan gyrff dosbarthu),

(b) a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 18 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) (grantiau tai cymdeithasol), neu

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) o dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53) (cymorth ariannol ar gyfer adfywio a datblygu).